Cyrddau

# Dathlu ac Anrhegu

## Y Parch. Job Herbert, Penygroes



CHWEFROR 13–16, 1939.

*Dathlu Hanner Can-mlwyddiant y Parch. Job Herbert yn y Weinidogaeth a deugain mlynedd yn ei faes presennol. Cyflwynir Tysteb Gyffredinol fel arwydd o barch a gwerthfawrogiad o'i wasanaeth ffyddlon yn rhwymau'r Efengyl.*

Swyddogion y Pwyllgor Gyffredinol.

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | - | Y Parch. L. BERIAN JAMES, B.A., Penygroes |
| Trysorydd | - | Mr. Wm. WILLIAMS, Y.H., Penygroes |
| Ysgrifennydd | - | Y Parch. J. T. JONES, B.A., Tabor, Cross Hands |

Davies a Morris, Argraffwyr, Penygroes.

# Emynau.

**1. SARAH. Rhif 3**

GRAS! O'r fath beraidd sain,
I'm clust hyfrydlais yw;
Hwn bair i'r nef ddadseinio byth,
A'r ddaear oll a glyw.

Gras gyntaf drefnodd ffordd
I gadw euog ddyn;
Llaw gras a welir y mhob rhan
O'r drefn ryfeddol, gun.

Gras ddaeth a'n traed yn ol
I lwybrau'r nefoedd wen;
A chymorth newydd rydd yn awr,
I ddwyn y daith i ben.

Gras a gorona'r gwaith,
Draw mewn anfarwol fyd;
A chaiff y clod a'r moliant byth,
Gan luoedd nef y nghyd.

**2. ROCKINGHAM. Rhif 156.**

O BOB hyfrydwch, nos a dydd,
Dy gariad, Iesu! 'n bennaf sydd
Y fendith fwyaf yn y byd,
A delw hardda'r nefoedd [illegible]

Pob gwen o'th wyneb siriol sydd,
Yn tanio'n serch a llonni'n ffydd;
Pob hanes am dy ras a'th gur,
A'th enw, sy'n hyfrydwch pur.

Er hyn, O Dduw! na thrig ymhell,
Cael gweld dy wedd sydd lawer gwell:
Gwell gweld ein Harglwydd yn ein plith,
Rhydd Ef fendithion rif y gwlith.

**3. BLAENWERN Rhif 685.**

O RYFEDDOL dyner gariad
Sy'n fy arwain drwy fy oes,
Cariad o dragwyddol darddiad
A ddadlennwyd ar y groes;
Cariad Tad heb ffin na mesur
Fel y Duwdod yn ei faint;
Cariad erys drwy yr oesoedd
Yn brif destyn mawl y saint.

Dyma sylfaen fy ngobeithion
Rydd ysbrydiaeth yn fy nghan,
Fy nghynhorthwy yn y dyfroedd
A fy nodded yn y tan;
Nid oes i'm o fewn y cread
Nid oes i'm yn nef y nef,
Ddim mewn bywyd, ddim yn angeu
Fel ei gariad rhyfedd Ef.

**4. SANCTUS. Rhif 696.**

GLAN gerubiaid a seraffiaid,
Fyrdd o gylch yr orsedd fry,
Mewn olynol seiniau di-baid,
Ganent fawl eu Harglwydd cu;
Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant
Llawn yw'r ddaear, dir, a mor;
Rhodder i Ti fythol foliant
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Ior.

Gyda'r dyrfa lan i fyny,
Gyda'r eglwys frwd i lawr,
Uno wnawn fel hyn i ganu
Anthem clod ein Harglwydd mawr
Llawn yw'r nefoedd o'th ogoniant
Llawn yw'r ddaear, dir, a mor;
Rhodder i Ti fythol foliant,
Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Ior.

**5. DUSSELDORF. Rhif 703**

"FELLY carodd Duw" wrth—ddrychau
Anhawddgara' erioed a fu,
"Felly carodd," fel y rhoddodd
Anwyl Fab ei fynwes gu;
Ni arbedodd, ond traddododd
Ef, dros ein pechodau i gyd,
Taro'r Cyfaill, arbed gelyn,
"Felly carodd Duw y byd!"

"Felly carodd" gan dosturio'r
Rhad wrth euog isel ddyn:
Felly carodd," yn anfeidrol
Deilwng byth [illegible] o'i hun;
Er arbediad gwrthryfelwyr,
Gwnaeth ei Fab yn Aberth drud;
Maddeu iddynt a'u cofleidio!—
"Felly carodd Duw y byd!"

"Felly carodd," ond ni ddichon
I angylion nef y nef
Draethu i oesau tragwyddoldeb
Hyd a lled ei gariad Ef;
Dyfnach yw na dyfnder daear,
Uwch na'r nefoedd fawr i gyd;
Rhaid yw tewi gyda d'wedyd,
"Felly carodd Duw y byd!"

# Emynau.

**6. PEMBROKE Rhif 417.**

RWY'N gweld o bell y dydd yn dod,
Bydd bob cyfandir is y rhod
Yn eiddo Iesu mawr;
A holl hynysoedd maith y mor
Yn cyd-ddyrchafu mawl yr Ior,
Dros wyneb daear lawr!

Mae teg oleuni blaen y wawr
O wlad i wlad yn dweyd yn awr
Fod bore ddydd gerllaw:
Mae pen y bryniau'n llawenhau,
Wrth weld yr haul yn agoshau,
A'r nos yn cilio draw. Amen.

**7. LLYDAW. Rhif 403.**

O! ARGLWYDD Dduw y lluoedd!
Gwna drugarhau yn awr,
A danfon rad fendithion
O'r nefoedd wen i lawr;
Cyfranna i bob enaid
Sydd yma ger dy fron;
Gwna waith cei glod am dano
Pan losgo'r ddaear hon.

**8. LLANLLYFNI. Rhif 35.**

GAD imi fyw o hyd
I ti, fy Arglwydd mawr
Heb roddi serch y nefol fyd
Ar bethau llwm y llawr.
Gad imi beunydd fod
Am bryd ar gynnydd Duw,
Am ddwyfol anian boed fy nod,
A bod yn ysbryd byw.

Na ad im ddod i fyd
Ysbrydoedd perffaith lan,
Yn anaf ac yn glais i gyd
Heb ysbryd at y gan,
Gad imi fyw yn awr
Y bywyd berv'n un
Am holaf ddydd ni bydd ond gwawr
Fy nefol fyd fy hun.

**9. TANYCASTELL. Rhif 736**

PWY sydd gennyf yn y Nefoedd
Ond Tydi Waredwr cun?
A phwy hefyd ar y ddaear
Ond Tydi anwylaf un?
Pwy a'm tywys yn yr anial?
Pwy yn angeu ddeil fy mhen?
Pwy a'm cymer i ogoniant?
Ond Tydi Dywysog nen.

Diolch byth am iti'm cofio
Yn fy ngwaeledd ar y llawr,
pan o ganol nos anobaith
Troist fy wyneb tua'r wawr.
Codaist f'enaid o'r dyfnderau,
Yn fy angenau rhoddaist gan,
A chyfeiriaist fy ngherddediad
Fyny tua'th gartref glan.

Paid a gadael i mi farw
Heb dy heddwch O fy Nuw
Ac heb wedd dy wyneb grasol
Paid a gadael i mi fyw.
O, am olwg newydd arnat
Bob rhyw fore, bob rhyw hwyr
Hyd nes deuaf adre atat
Lle caf fyth foddlonrwydd llwyr

**10. FAVIANT. Rhif 947**

O GOD our help in ages past
Our hope for years to come,
Our shelter from the stormy blast,
And our eternal home!

Under the shadow of Thy throne
Thy saints have dwelt secure;
Sufficient is Thine arm alone,
And our defence is sure.

Before the hills in order stood,
Or earth received her frame,
From everlasting Thou art God,
To endless years the same.

A thousand ages in Thy sight
Are like an evening gone;
Short as the watch that ends the night
Before the rising sun.

Time like an ever-rolling stream,
Bears all its sons away:
They fly forgotten, as a dream
Dies at the opening day.

O GOD our help in ages past
Our hope for years to come,
Be Thou our guard while life shall last,
And our eternal home!

# Odfeuon Pregethu.

**NOS LUN, 6.30—PENRHIWGOCH.**

Llywydd — — Y Parch. D. DAVIES, Llanlluan.
Rhannau Arweiniol: Y Parch. T. M. GRIFFITHS, Carmel.
Pregethwyr: Y Parchn. BRYNMOR THOMAS, Milo.
GWILYM OWEN, B.A., Gorseinon

**NOS FAWRTH 6.30—CALFARIA.**

Llywydd ... ... Y Parch. BRYNMOR THOMAS.
Rhannau Arweiniol ... Y Parch. G. J. WATTS, Llandybie.
Pregethir gan Y Parch'n DAN WILLIAMS, Penygroes.
F. WALDO ROBERTS, Llanelli.

**NOS FERCHER, 6.30—CALFARIA.**

Llywydd ... ... Y Parch. R. LLOYD, Saron.
Rhannau Arweiniol: Y Parch. MEIDRYM E. EVANS, B.A., B.D.
Pregethir gan y Parch'n D. R. JOHN, Rhydwilym.
J. JUBILEE YOUNG, Llanelli.

Cesglir ymhob Odfa tuag at dreuliau'r Dysteb.

---

# Cwrdd Dathlu ac Anrhegu.

**NOS IAU am 6—CALFARIA.**

Llywydd ... ... Y Parch. L. BERIAN JAMES, B.A.

Rhannau Arweiniol: Y Parch. G. EDMUND WILLIAMS, Llandeilo

**ANERCHIADAU:—**

Hanes Eglwys Penrhiwgoch ... ... Mr. T. THOMAS.
Hanes Eglwys Calfaria ... ... Mr. J. GRIFFITHS.
Ar ran plant yr Eglwys: Parch. D. R. JOHN, Rhydwilym

**CYFLWYNO'R DYSTEB gan:—**

SAMUEL JONES, Ysw, Llandeilo. (Trysorydd y Gymanfa)

**ANERCHIADAU :...**

Y Parch. W. R. WATKINS, M.A., Llanelli. (Is-Lywydd yr Undeb)
Y Parch. D. BOWEN, Pum Heol. (Llywydd y Gymanfa)
Y Parch. T. ROBERTS, Llannon. (Ysgrifennydd y Cwrdd Chwarter)
W. WILLIAMS, Ysw, Y.H. Penygroes. (Cynrychiolydd yr Ardal).

**CROESO CYNNES I BAWB.**